Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

sirgar.llyw.cymru
carmarthenshire.gov.wales

Eich cyf / Your ref:
Fy nghyf / My ref:

Dyddiad / Date: 05/03/2026

Gofynner am / Please ask for: Tim RhMY

Llinell Uniongyrchol / Direct Line:

E-bost / E-mail: RhMYYmgynghoriadau@sirgar.gov.uk

Annwyl Rhiant / Gwarcheidwad,

**Hysbysiad ynghylch Penderfyniad y Cyngor Sir –**
**Y Cynnig i gau Ysgol Llansteffan**

Ar ddydd Mercher, 4 Mawrth 2026, gwnaeth Cyngor Sir Caerfyrddin benderfynu cymeradwyo'r cynnig canlynol:

***I gau Ysgol Llansteffan o'r 31ain Awst 2026 ac ail-ddynodi a chynnwys dalgylch Ysgol Llansteffan o fewn dalgylch bresennol Ysgol Llangain o'r 1af o Fedi 2026.***

**Gwrthwynebiadau i'r cynnig**

Derbyniwyd 198 o wrthwynebiadau.

Ystyriwyd y cynnig yn unol â gofynion Côd Trefniadaeth Ysgolion 2018 y Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a nodwyd bod 198 gwrthwynebiad wedi dod i law ynghylch y cynnig yn ystod y cyfnod gwrthwynebu statudol.

Mae'r Adroddiad Gwrthwynebu ar gyfer y cynnig uchod ar gael i'w weld ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin trwy ddilyn y ddolen isod:

Adroddiad Gwrthwynebu

Wrth ddod i benderfyniad ar y cynnig, ystyriodd y Cyngor Sir y ffactorau canlynol fel y'u hamlinellwyd yn nogfen Côd Trefniadaeth Ysgolion 2018 fel a ganlyn:

**Ansawdd a safonau mewn addysg**

Barn yr Awdurdod Lleol yw y byddai Ysgol Llangain yn darparu addysg i ddisgyblion sydd o ansawdd o leiaf yn gyfatebol i'r hyn a ddarperir yn Ysgol Llansteffan, felly ni ragwelir y bydd gweithredu'r cynnig hwn yn cael effaith negyddol ar safonau a chynnydd yn gyffredinol. Mae'n bwysig nodi bod Ysgol Llangain yn rhan o'r un ffederasiwn gyda'r un arweinyddiaeth.

Bydd yr Awdurdod Lleol yn gweithio'n agos gyda'r Pennaeth a'r corff llywodraethu perthnasol i sicrhau cyfnod trosglwyddo hwylus i ysgolion eraill.

**Yr angen am leoedd a'r effaith ar hygyrchedd ysgolion**

Wrth gymeradwyo'r cynnig hwn, mae'r Cyngor Sir wedi ystyried a oes lleoedd digonol ar gael a'r galw tebygol am leoedd yn y dyfodol. Nodwyd bod nifer o leoedd gwag yn Ysgol Llansteffan oherwydd nifer isel o ddisgyblion. Mae yna ddigon o leoedd yn Ysgol Llangain ar gyfer y disgyblion presennol a'r rhai yn y dyfodol a fydd yn ei dro yn cael effaith gadarnhaol ar leihau'r lleoedd dros ben yn Ysgol Llangain.

**Adnoddau addysg**

Wrth wneud y penderfyniad hwn, mae nifer o faterion wedi cael eu hystyried ac, yn benodol y nifer isel o ddisgyblion a rhagolygon, y diffyg ariannol a chyfran uchel y gyllideb fesul disgybl.

**Rhagdybiaeth yn erbyn cau ysgolion gwledig**

Mae ail rifyn Côd Trefniadaeth Ysgolion (2018) yn nodi trefniadau arbennig mewn perthynas ag ysgolion gwledig o ran sefydlu rhagdybiaeth drefniadol yn erbyn eu cau. Mae Ysgol Llansteffan wedi cael ei ddynodi yn ysgol wledig sy'n golygu eu bod yn ofynnol i'r Awdurdod Lleol ddilyn cyfres fwy manwl o weithdrefnau a gofynion wrth lunio cynnig i gau ysgol wledig.

Ystyrir mai gweithredu'r cynnig i beidio â chynnal Ysgol Llansteffan yw'r ymateb mwyaf priodol i fynd i'r afael â'r rhesymau a nodwyd wrth lunio'r cynnig oherwydd y ffactorau canlynol:

- Mae yna nifer sylweddol o leoedd gwag yn Ysgol Llansteffan oherwydd y cwymp yn y nifer o ddisgyblion dros sawl blwyddyn a dim ond 8 disgybl oedd ar y gofrestr ar adeg cynnal cyfrifiad ysgolion mis Ionawr 2025. Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod bod y nifer hwn wedi cynyddu i 16 erbyn adeg cynnal cyfrifiad ysgolion Ionawr 2026.
- Mae rhagolygon nifer y disgyblion yn parhau i fod yn isel ar gyfer yr ysgol.
- Mae’r ysgol mewn diffyg ariannol.
- Cyfran cyllideb yr ysgol fesul myfyriwr yw £18,545. Mae hyn yn £13,065 neu 238% yn uwch na chyfartaledd ysgolion cynradd Cyngor Sir Gaerfyrddin o £5,480 ar gyfer 2025-26.
- Effaith gadarnhaol ar leihau nifer y lleoedd gwag yn Ysgol Llangain.
- Cefnogi Egwyddorion Ôl Troed Addysg Gynradd Cyngor Sir Caerfyrddin.

**Cyfeirio Penderfyniadau'r Awdurdod Lleol at Weinidogion Cymru**

Sylwch nad yw'r wybodaeth isod yn berthnasol i rieni / gwarchodwyr ond mae wedi'i darparu er mwyn cyflawnedd.

Os oes unrhyw un o'r cyrff canlynol yn credu y gwnaethpwyd penderfyniad anghywir gan yr Awdurdod Lleol, yna o dan adran 54 o Ddeddf 2013 gallant o fewn 28 niwrnod gyfeirio'r cynnig at Weinidogion Cymru i'w ystyried:-

- Awdurdod lleol arall y mae'r cynigion yn effeithio arno;
- Y corff crefyddol priodol;
- Corff Llywodraethu ysgol wirfoddol neu ysgol sefydledig;
- Ymddiriedolaeth sy'n dal eiddo ar ran ysgol wirfoddol neu ysgol sefydledig;
- Sefydliad addysg bellach y mae'r cynigion yn effeithio arno.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch â’r tim RhMY.

Yn gywir,

Y Tim Rhaglen Moderneiddio Ysgolion